Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 27.01.25 |
| **Pwnc / Subject:** | **Llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Diben yr ymgynghoriad**

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cynnal ymchwiliad i Lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth ysgrifenedig ar bob un neu gynifer â phosibl o'r pwyntiau isod gan weithwyr proffesiynol, unigolion a sefydliadau.

Cylch Gwaith

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar:

 Ansawdd y wybodaeth a roddir i ddysgwyr am ystod lawn yr opsiynau ôl-16 (llwybrau galwedigaethol ac academaidd yn y sector ôl-16, h.y. addysg bellach, chweched dosbarth, prentisiaethau a hyfforddiant, ac ymlaen i addysg uwch)

- Ansawdd a natur y wybodaeth a roddir i ddysgwyr mewn ysgolion a'r rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY).
- Ansawdd a natur y wybodaeth y mae Gyrfa Cymru yn ei rhoi yn uniongyrchol i ddysgwyr.
- Y graddau y gall colegau addysg bellach ymgysylltu'n uniongyrchol â dysgwyr mewn ysgolion.
- Y graddau y caiff dysgwyr mewn ysgolion eu gwneud yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt mewn chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach lleol, a pha mor agos y mae ysgolion yn ymgysylltu â cholegau lleol. A oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach, ac a yw hyn yn fwy amlwg mewn rhai ardaloedd o Gymru nag eraill?
- Y graddau y gall cyflogwyr ymgysylltu'n uniongyrchol â dysgwyr mewn ysgolion, er enghraifft mewn digwyddiadau gyrfaoedd.
- Pwy arall sy'n dylanwadu ar ddewisiadau gyrfaoedd dysgwyr yn y dyfodol (e.e. rhieni, athrawon, cyfoedion), a pha mor dda y caiff y bobl hynny eu cynorthwyo i wneud hyn.

 Pa mor effeithiol yw cymorth gyrfaoedd ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol

- I ba raddau y mae cymorth gyrfaoedd yn y sector cyn-16 yn arwain at ddeilliannau cadarnhaol neu negyddol yn y sector ôl-16, e.e. pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH).
- P'un a yw cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol yn weithredol, yn effeithiol ac yn ystyrlon, ac unrhyw rwystrau o ran hynny.

 Newidiadau mewn llwybrau ôl-18

- A oes tystiolaeth fod dysgwyr yn newid eu dewisiadau ar ôl-18, yn cynnwys gostyngiad mewn cofrestriadau Addysg Uwch, ac os felly, pam?

 Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- Argaeledd opsiynau ôl-16 (academaidd a galwedigaethol, fel ei gilydd) trwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae hyn yn effeithio ar ddewisiadau pobl ifanc.

- Mynediad teg
  - A oes rhai grwpiau o ddysgwyr dan anfantais yn sgil y system bresennol (e.e. disgyblion o aelwydydd incwm isel, dysgwyr ag anghenion teithio)?
  - Pa gymorth sydd ar gael ar gyfer dysgwyr i wella mynediad (ariannol, neu fel arall)?
  - A oes unrhyw amrywiad rhanbarthol yn y wybodaeth a'r cymorth a ddarperir am y sector ôl-16 ledled Cymru? A oes unrhyw heriau penodol yn wynebu dysgwyr mewn ardaloedd gwledig?
  - A oes unrhyw faterion cydraddoldeb eraill?
- Data cyrchfannau ôl-16
  - A oes digon o ddata cyrchfannau ôl-16 yn cael ei gasglu i ddeall tueddiadau a llywio'r hyn y mae sefydliadau addysg yn ei gyflwyno? Os na, pa ddata sydd ei angen i ddeall y tirlun ôl-16 yn llawn?
- Rôl Llywodraeth Cymru
  - Pa mor effeithiol yw ymagwedd Llywodraeth Cymru at gefnogi cyfranogiad yn yr ystod lawn o opsiynau addysg a hyfforddiant ôl-16?
  - A yw dysgwyr, eu teuluoedd a'u hysgolion yn ymwybodol o gymorth a rhaglenni sydd ar gael ledled Cymru, fel y Warant i Bobl Ifanc?
  - Deilliannau o adroddiad Dr Hefin David AS, 'Pontio i Fyd Gwaith'.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Mae ein hymateb yn amlygu anghysondebau a heriau yn ansawdd a hygyrchedd y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael i ddysgwyr am opsiynau ôl-16 yng Nghymru. Rydym wedi adrodd yn y gorffennol am y diffyg strategaeth genedlaethol gydlynol ar gyfer addysg a hyfforddiant 16-19 yng Nghymru, ac mae hyn yn creu cyd-destun heriol i ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i ddysgwyr.

Er bod mwyafrif yr ysgolion uwchradd (yn cynnwys ysgolion pob oed) yn darparu cymorth ac arweiniad cryf, caiff didueddrwydd yn aml ei beryglu, yn enwedig mewn ysgolion a dosbarthiadau chweched, lle nad yw llwybrau amgen fel colegau addysg bellach a phrentisiaethau yn cael eu hyrwyddo'n ddigonol. Caiff ymdeimlad o gystadleuaeth effaith negyddol ar ymdrechion cydweithredol rhwng ysgolion a cholegau i gefnogi dysgwyr ag opsiynau ôl-16.

Mae dealltwriaeth dysgwyr o opsiynau ôl-16 sydd ar gael yn amrywio'n fawr, ac nid yw digon o ddysgwyr yn ymwybodol o gyfleoedd dysgu galwedigaethol a dysgu yn y gwaith. Mae arweiniad diduedd ar yrfaoedd gan Gyrfa Cymru wedi bod yn effeithiol mewn llawer o achosion, ond mae bylchau'n parhau o ran mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu ddewisiadau Cymraeg. Mae opsiynau a heriau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg cyfyngedig o ran recriwtio staff medrus sy'n siarad Cymraeg yn gwaethygu anghydraddoldeb.

Mae rhwystrau o ran cludiant a rhwystrau ariannol yn atal mynediad teg at addysg ôl-16 ymhellach, gan gael effaith anghymesur ar ddysgwyr o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag

ADY. Ceir problemau ag ansawdd a defnyddioldeb data cyrchfannau ôl-16, gan gyfyngu ar werthuso deilliannau yn effeithiol.

Mae Estyn wedi rhoi argymhellion yn y gorffennol sy'n cwmpasu gwella arweiniad diduedd, meithrin cydweithio rhwng ysgolion a cholegau, mynd i'r afael â heriau o ran cludiant a heriau ariannol, a gwella casglu data i fonitro a chefnogi deilliannau dysgwyr yn well.

Byddwn yn ymateb yn awr i feysydd ffocws yr ymchwiliad.

**Ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei rhoi i ddysgwyr am yr ystod lawn o opsiynau ôl-16 (llwybrau galwedigaethol ac academaidd yn y sector ôl-16, h.y. addysg bellach, chweched dosbarth, prentisiaethau a hyfforddiant, ac ymlaen i addysg uwch)**

Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd yn darparu cymorth ac arweiniad cryf ar gyfer dysgu a gyrfaoedd yn y dyfodol, ac mae ychydig ohonynt yn ailgyflwyno lleoliadau profiad gwaith yn fuddiol ar gyfer dysgwyr ym Mlynyddoedd 10 a 12. Fodd bynnag, lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig sy'n manteisio'n llawn ar gyfleoedd i weithio gyda cholegau lleol i ymestyn eu cynnig cwricwlaidd. Yn ychwanegol, nid yw ysgolion uwchradd bob amser yn rhoi arweiniad diduedd i ddisgyblion ynglŷn â'u dewisiadau yn y dyfodol. Er enghraifft, nid yw disgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11 mewn ysgolion uwchradd sydd â chweched dosbarth, a'u rhieni, bob amser yn cael gwybod am nosweithiau agored mewn colegau lleol. Mae'r canfyddiadau hyn wedi'i seilio ar grynodeb o'r 31 ysgol uwchradd a arolygwyd gan Estyn yn ystod 2023/2024.

Yn nhymhorau'r hydref a'r gwanwyn yn 2021-2022, bu arolygwyr yn cynnal ymweliadau ar-lein â sampl o ddarparwyr ar draws wyth ardal awdurdod lleol yng Nghymru i werthuso trefniadau'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru. Roedd y rhain yn cynnwys ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed sydd â chweched dosbarth, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith ac awdurdodau lleol. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar-lein yn hytrach nag wyneb yn wyneb o ganlyniad i effaith barhaus pandemig COVID-19. Bu arolygwyr yn siarad â dysgwyr, athrawon, arweinwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill, yn ogystal ag edrych ar ystod eang o ddogfennau'n ymwneud â threfniadau'r cwricwlwm presennol ar gyfer dysgwyr 16-19 yng Nghymru. Ffurfiodd hyn y sylfaen ar gyfer adroddiad thematig Estyn, 'Cwricwlwm 16-19: Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru' (cyhoeddwyd ym mis Hydref 2022). Nododd canfyddiadau'r adroddiad y canlynol:

*Canfu Estyn fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn amrywio'n sylweddol, yn amodol ar ansawdd y wybodaeth a'r cyngor a roddir iddynt. Nid oedd digon o ddysgwyr yn ymwybodol o gyfleoedd dysgu yn y gwaith, fel prentisiaethau.*
*Canfu Estyn fod gwahaniaethau sylweddol yn yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yn eu hardal leol ar ôl iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Mae'r opsiynau sydd ar gael hefyd yn cael eu dylanwadu'n gryf gan ddewis iaith dysgwyr a'u cyrhaeddiad addysgol.*

*At ei gilydd, nid yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn gweithio'n ddigon da. Nid oes strategaeth genedlaethol glir ar gyfer dysgu 16-19 ac mae gormod o anghysondeb rhwng ac o fewn ardaloedd a darparwyr.*
*Er gwaethaf y diffyg cyfeiriad cydlynus gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr 16-19 oed, mae darparwyr ac awdurdodau lleol mewn ychydig o ardaloedd lleol yn gweithio'n dda yn strategol i oresgyn rhai o'r rhwystrau ac yn darparu cynnig cwricwlwm eang a pherthnasol sy'n diwallu anghenion dysgwyr ar bob lefel, ac yn ymateb i anghenion medrau cyflogwyr.*

*Caiff yr hyn y mae dysgwyr yn dewis ei ddysgu yn 16 oed, a gyda pha ddarparwr, ei ddylanwadu gan ansawdd a didueddrwydd y wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a gânt am yr opsiynau yn eu hardal leol, a'r llwybrau mae'r rhain yn eu darparu ar gyfer addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn y dyfodol. Dywedodd llawer o ddysgwyr wrthym eu bod yn ystyried gwybodaeth gan ffrindiau ac aelodau o'u teulu hefyd wrth benderfynu ble a beth i'w astudio ar ôl cwblhau eu hastudiaethau ym Mlwyddyn 11.*

Yn ychwanegol, nodwyd y canlynol ym mhrif ganfyddiadau adroddiad thematig Estyn, 'Partneriaethau ôl-16 – Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau' (cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021).

*Dywed mwyafrif yr uwch arweinwyr mewn ysgolion sydd â chweched dosbarth nad yw'r berthynas â'u colegau lleol mor gryf ag ydyw gydag ysgolion eraill, ar y cyfan. Hefyd, mae uwch arweinwyr mewn colegau yn cydnabod bod hyn yn broblem rhwng colegau a lleiafrif o ysgolion ledled Cymru. Maent yn adrodd am ymdeimlad o gystadleuaeth a diffyg tryloywder ac ymddiriedaeth rhwng y ddau sector. Mewn ychydig o achosion, mae tensiynau tebyg yn bodoli rhwng ysgolion.*

*Mae llawer o ysgolion yn rhoi gwybodaeth addas i ddysgwyr am yr opsiynau sydd ar gael wedi iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Mewn ychydig o ysgolion, mae dysgwyr yn elwa ar ystod gynhwysfawr o weithgareddau i'w helpu i ddysgu am eu hopsiynau ôl-16 ym mhob darparwr lleol, a phenderfynu rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd i gyfarfod â chynrychiolwyr o ddarparwyr ôl-16 lleol eraill, gan gynnwys darparwyr dysgu yn y gwaith, yn ogystal ag ysgolion a cholegau.*

*Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r arweiniad a gânt tra byddant yn yr ysgol. Mae lleiafrif ohonynt yn teimlo nad yw cyngor gan ysgolion yn mynd i'r afael â llwybrau eraill yn lle astudiaethau Safon Uwch yn ddigonol, a bod aelodau staff yn aml yn canolbwyntio ar annog dysgwyr i symud ymlaen i chweched dosbarth yr ysgol ei hun. Mae dysgwyr o'r farn nad yw darparwyr ôl-16, gan gynnwys ysgolion a cholegau, yn rhannu digon o wybodaeth am ansawdd eu darpariaeth a'r deilliannau a gyflawnir gan eu dysgwyr.*

*Mae llawer o ddosbarthiadau chweched ysgolion a cholegau yn rhoi blaenoriaeth uchel i nifer y cofrestriadau dysgwyr. Yn aml, mae arweinwyr dosbarthiadau chweched bach yn teimlo eu bod dan bwysau ariannol i sicrhau bod dysgwyr Blwyddyn 11 yn symud ymlaen i'w chweched dosbarth. Mewn lleiafrif o achosion, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cyfyngu ar hyrwyddo dewisiadau eraill o ganlyniad. Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr ysgolion yn gwahodd darparwyr eraill i drafod eu darpariaeth ôl-16 gyda dysgwyr Blwyddyn 11 mewn ffordd gynhwysfawr.*

*Mae'r rhan fwyaf o ysgolion nad oes ganddynt eu chweched dosbarth eu hunain yn rhoi gwybodaeth ddiduedd i ddysgwyr am yr ystod lawn o opsiynau dilyniant sydd ar gael iddynt. Mae dysgwyr yn elwa ar ryngweithio rheolaidd gyda darparwyr ôl-16 lleol, ysgolion a cholegau fel ei gilydd, i ddysgu am y cyrsiau a gynigir a thrafod eu dyheadau. Mewn lleiafrif o achosion, mae'r ysgolion hyn yn sicrhau bod dysgwyr yn rhyngweithio â darparwyr dysgu yn y gwaith, hefyd. Mae gan lawer ohonynt drefniadau pontio effeithiol sy'n cael eu cefnogi gan ddeialog fuddiol rhwng aelodau staff ysgol sy'n adnabod dysgwyr unigol yn dda, a chynrychiolwyr o'r darparwyr ôl-16.*

Yn hydref 2021, ymwelodd AEF Estyn (Arolygwyr Ei Fawrhydi) â sampl o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion (UCD) a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ledled Cymru i arsylwi sesiynau arweiniad un wrth un rhwng cynghorwyr Gyrfa Cymru a phobl ifanc. Bu AEF yn siarad â phobl ifanc sy'n derbyn

arweiniad, athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd ac arweinwyr a rheolwyr Gyrfa Cymru. Buont hefyd yn edrych ar ystod eang y dogfennau yn gysylltiedig â chyngor ac arweiniad ar yrfaoedd a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru. Roedd prif ganfyddiadau adroddiad thematig Estyn, 'Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru' (cyhoeddwyd ym mis Mai 2022), fel a ganlyn.

*Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc sy'n gymwys i gael sesiwn arweiniad yn yr ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelom â nhw yn gwneud cynnydd da o'u gwahanol fannau cychwyn wrth greu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Pan oedd pobl ifanc yn dechrau eu sesiwn arweiniad gyda chynlluniau a syniadau afrealistig, roedd hyn fel arfer yn deillio o ddiffyg cymorth gan eu hysgol neu leoliad. Ar ôl iddynt gael arweiniad, roedd y bobl ifanc hyn yn gwneud cynnydd da iawn tuag at ddeall y llwybrau ôl-16 sydd ar gael iddynt. Roedd y rhan fwyaf o gynghorwyr gyrfaoedd wedi paratoi'n dda ar gyfer eu sesiynau arweiniad, yn enwedig ble roedd ganddynt berthnasoedd sefydledig â darparwyr, ac roeddent yn rhannu gwybodaeth allweddol. Roedd cynghorwyr yn effeithiol ac yn darparu cyngor clir a phriodol ar gyfer y camau nesaf i bobl ifanc eu cymryd. Roedd cynghorwyr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) arbenigol yn cynorthwyo pobl ifanc ag ADY wrth iddynt gynllunio pontio, ac roedd ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.*

*Mewn ychydig o achosion, nid oedd cynghorwyr yn ymwybodol bod y dysgwyr yn siarad Cymraeg, ac felly nid oeddent yn eu hannog i ystyried effaith bosibl hyn ar eu cynlluniau.*

Ym mis Medi 2023, argymhellodd adroddiad thematig Estyn am y system ADY newydd y dylai awdurdodau lleol ddatblygu a chyhoeddi eu strategaeth ar gyfer dysgwyr ôl-16 ag ADY. Mae canfyddiadau interim adolygiad thematig cyfredol o ddarpariaeth medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach yn dangos bod colegau ledled Cymru yn amrywio'n sylweddol o ran cymhlethdod anghenion dysgu y gallant eu diwallu. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth glir a hygyrch am opsiynau addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer pob un o'r dysgwyr ag ADY, yn cynnwys y rhai nad eu coleg addysg bellach lleol yw eu darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY).

**Pa mor effeithiol yw cymorth gyrfaoedd mewn oedran ysgol gorfodol**

Ar sail arolygon cyrchfannau blynyddol, mae data Gyrfa Cymru yn dangos bod cyfran uchel iawn o ddysgwyr yng Nghymru sy'n 16 oed yn parhau mewn addysg (86.7%, 2023), a bod ychydig iawn o ddysgwyr yn dechrau dysgu yn y gwaith neu'n mynd yn syth i gyflogaeth (5.8%, 2023). Mae'n hysbys mai dim ond 2% o ddysgwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) yn yr ychydig fisoedd cyntaf ar ôl gorffen Blwyddyn 11 yn yr ysgol (2023). Mae hwn yn ffigur tebyg i'r gyfran a oedd yn NACH cyn y pandemig (1.8%, 2019). Fodd bynnag, nid yw'r ffigur ar gyfer cyfran y dysgwyr NACH yn 16 mlwydd oed yn adrodd stori lawn. Er enghraifft, yn 2023, nid oedd ymateb i'r arolwg ar gyfer 1.2% o ddysgwyr, ac oherwydd nad oedd y dysgwyr hyn mewn ysgol, coleg neu ddarparwr hyfforddiant lleol, mae perygl eu bod nhw hefyd yn bobl NACH. Ymhellach, rydym yn gwybod nad yw nifer sylweddol o ddysgwyr yn cynnal eu cyrchfan gychwynnol. Efallai nad oedd y cyngor a'r arweiniad cychwynnol yr oedd y dysgwyr hyn yn ei gael mor fuddiol ag y gallai fod. Mae rhai o'r dysgwyr hyn yn trosglwyddo i gwrs neu ddarparwr newydd ar ganol blwyddyn, ond nid pob un ohonynt. Mae hyn yn golygu, wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, fod cyfran gynyddol o ddysgwyr NACH. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru mai'r gyfradd NACH ar gyfer pobl rhwng 16 ac 18 oed yng Nghymru oedd 5.4% yn y flwyddyn yn gorffen ym mis Mehefin 2024, a'r

gyfradd NACH ar gyfer pobl rhwng 19 a 24 oed yng Nghymru oedd 14.1% ar gyfer yr un flwyddyn.

Argymhellodd adroddiad thematig Estyn, 'Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022, y dylai Gyrfa Cymru, 'Ddatblygu systemau a meini prawf priodol i werthuso'r effaith a gaiff gwasanaethau ar effeithiolrwydd a gwydnwch pobl ifanc wrth iddynt gynllunio gyrfa a gwneud penderfyniadau'.

Yn ychwanegol, nododd adroddiad thematig Estyn, 'Cwricwlwm 16-19: Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru' (cyhoeddwyd ym mis Hydref 2022) y canlynol:

*Mae gormod o amrywiad o hyd yn ansawdd addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith, a chyngor ac arweiniad diduedd i gynorthwyo'r holl ddysgwyr mewn ysgolion yn llawn wrth wneud dewisiadau am eu hopsiynau addysg a hyfforddiant yn y sector ôl-16. Nid yw'r lleiafrif o ddysgwyr a ymatebodd i'n harolwg a fu'n astudio mewn ysgolion gyda'u dosbarthiadau chweched yn teimlo bod y cyngor a'r arweiniad a gawsant am opsiynau ôl-16 yn ddigon cynhwysfawr neu'n ddigon diduedd. Hefyd, mae mwyafrif o ddysgwyr yn teimlo na roddir digon o wybodaeth iddynt am lwybrau dysgu yn y gwaith, gan gynnwys prentisiaethau. Er bod cyngor ac arweiniad ar-lein wedi llwyddo i raddau yn ystod y pandemig, ni chafodd dysgwyr gyfle i fanteisio ar yr un amrywiaeth o brofiadau yn gysylltiedig â gwaith, sesiynau rhagflas neu siaradwyr gwadd i'w helpu i ddeall ystod lawn yr opsiynau ôl-16.*

**Newidiadau mewn llwybrau ôl-18**

Yn ystod ymweliadau ymgysylltu gan arolygwyr cyswllt Estyn â cholegau addysg bellach, dywedodd lleiafrif o uwch arweinwyr fod llai o ddysgwyr yn dewis symud ymlaen i addysg uwch. Yn ychwanegol, o'r rhai sy'n dewis symud ymlaen i ddilyn rhaglenni addysg uwch, mae cyfran gynyddol o'r dysgwyr hyn yn dewis darparwyr yn agosach at adref. Dywedwyd mai'r prif reswm am y newidiadau hyn yw effaith yr argyfwng costau byw.

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg: argaeledd opsiynau ôl-16 (academaidd a galwedigaethol, fel ei gilydd) trwy gyfrwng y Gymraeg, a sut mae hyn yn effeithio ar ddewisiadau pobl ifanc**

Yn adroddiad thematig Estyn, 'Cwricwlwm 16-19: Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru' (cyhoeddwyd ym mis Hydref 2022), amlygwyd y canlynol yn y prif ganfyddiadau:

*Caiff dysgwyr ledled Cymru ddilyn ystod eang o gyrsiau Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae cyfleoedd i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyrsiau galwedigaethol a dysgu yn y gwaith yn fwy cyfyngedig o lawer. Mae tua chwech o bob deg dysgwr sy'n siarad Cymraeg a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cwrs neu asesu trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'r rhan fwyaf o'r amser.*

Nodwyd y canlynol ym mhrif ganfyddiadau adroddiad thematig Estyn, 'Partneriaethau ôl-16 – Cynllunio a darpariaeth ar y cyd rhwng ysgolion, a rhwng ysgolion a cholegau' (cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021):

*Mae mwyafrif yr ysgolion cyfrwng Cymraeg dynodedig yn rhannu darpariaeth ôl-16 trwy bartneriaethau bach a arweinir gan y darparwyr eu hunain. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion cyfagos yn cynnal perthnasoedd gwaith cryf. I oresgyn y pellterau hir rhyngddynt, mae ychydig o ddarparwyr yn rhannu darpariaeth trwy ddefnyddio cysylltiadau fideo rhwng gwersi ei gilydd. Mae llawer o athrawon pwnc sy'n cyflwyno gwersi chweched dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cydweithio'n dda i ddatblygu a rhannu adnoddau addysgu a dysgu wedi eu hysgrifennu yn Gymraeg. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae colegau ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ei chael yn anodd cydweithio i helpu dysgwyr i ddilyn elfennau o gyrsiau galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg.*

Nodwyd y canlynol hefyd yn y prif ganfyddiadau sydd wedi'u crynhoi yn adroddiad thematig Estyn, 'Safon Uwch Cymraeg Iaith Gyntaf' (cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2020):

*Mae arweinwyr mewn lleiafrif o ysgolion dwyieithog yn wynebu heriau cynyddol i gryfhau'r cyfrwng addysgu Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4 a 5. Er mwyn goresgyn yr heriau hyn, mae enghreifftiau llwyddiannus o arweinwyr yn addasu a theilwra eu darpariaeth er mwyn grymuso a chryfhau'r dilyniant ieithyddol cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, mae targedau meintiol yng nghynlluniau strategol yr ysgolion hyn i gynyddu'r nifer y dysgwyr sy'n astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 a 5.*

*Mae agweddau'r rhan fwyaf o ddysgwyr cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 tuag at yr iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion naturiol ddwyieithog, at ei gilydd, yn gadarnhaol. Serch hynny, mae awydd a hyder lleiafrif o ddysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac mewn ystod o sefyllfaoedd y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol yn tueddu i bylu yn ystod eu haddysg uwchradd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r medrau gwerthfawr a ddaw o fod yn ddysgwyr dwyieithog o ran cyflogadwyedd ac apêl i gyflogwyr. Fodd bynnag, mae llawer o ddysgwyr mewn ysgolion dwyieithog yn dewis astudio eu cyrsiau trwy Saesneg yng nghyfnod allweddol 5.*

Mae'r dulliau ar gyfer monitro'r targedau sy'n cael eu gosod mewn Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) i wella addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau lleol.

Nododd ein Hadroddiad Blynyddol 2022-2023 fod darparwyr prentisiaethau ac is-gontractwyr yn parhau i ddatblygu ystod o adnoddau addysgu a dysgu dwyieithog a gwnaethant gynnydd o ran adnabod a chynyddu gallu eu haelodau staff i gyflwyno yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr sy'n dewis cwblhau agweddau ysgrifenedig ar eu gwaith yn Gymraeg yn parhau yn isel.

Yn ogystal ag argaeledd opsiynau cyfrwng Cymraeg, dyma a ganfuwyd yn ein hadroddiad ar weithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn bobl NACH (Gorffennaf 2024): 'Roedd cymorth gan weithwyr arweiniol ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn gyfyngedig, her sy'n dwysáu yn sgil anawsterau wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg.'

Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda cholegau a darparwyr prentisiaethau i ddatblygu medrau Cymraeg ac addysgeg dwyieithog ymarferwyr yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth o gynnydd dros y 5 mlynedd ddiwethaf o ran niferoedd yr ymarferwyr sy'n siarad Cymraeg a bod nifer y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys *'ychydig bach o Gymraeg'* wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag,

nid yw gweithgareddau mewn categorïau fel *cyfran fawr o ddysgu cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a Chymraeg yn unig* wedi cynyddu yn ystod yr un cyfnod.

***Mynediad cyfartal***

Mae'r ffordd y caiff data ei gasglu a'i gyhoeddi ar gyfer dysgwyr cyn-16 ac ôl-16 yn ei gwneud yn anodd dadansoddi tueddiadau a allai amlygu materion yn ymwneud â mynediad cyfartal. Ar gyfer darparwyr cyn-16, gallwn ddefnyddio cyfran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel procsi ar gyfer dysgwyr o aelwydydd incwm isel yn setiau data Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrhaeddiad. Fodd bynnag, nid oes gennym fesur cymaradwy ar gyfer dysgwyr ôl-16. Yn ein hadolygiad o'r cwricwlwm 16-19 (Hydref 2022), rhoesom yr argymhelliad hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid:

> 'Gwella ansawdd y data a gesglir ac a rennir i alluogi dadansoddiad llawn o gyrchfannau dysgwyr yn 16 oed a'r tu hwnt a'u deilliannau, gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchodedig dysgwyr, eu hanghenion dysgu ychwanegol, dewis iaith ar gyfer dysgu ac ymgysylltiad â mentrau allweddol, fel rhaglen Seren.'

Nododd ymweliadau ymgysylltu diweddar gan arolygwyr cyswllt â cholegau addysg bellach yn 2024 fod pryder cynyddol ymhlith arweinwyr colegau o ran newidiadau diweddar a rhai arfaethedig i drefniadau cludiant myfyrwyr o fewn sawl awdurdod lleol. Roedd pryderon penodol yn cynnwys effaith bosibl y newidiadau ar grwpiau o ddysgwyr, er enghraifft ychydig o awdurdodau lleol sy'n diwygio'r gofyniad o ran lleiafswm y pellter i fanteisio ar gludiant a ariennir i'r coleg a diwygio'r cyfyngiadau ar gymhwysedd y darparwr agosaf. Mae arweinwyr yn nodi y gallai newidiadau o'r fath gael effaith negyddol ar ddysgwyr o aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n ceisio manteisio ar ddarpariaeth arbenigol mewn cyrsiau fel amaethyddiaeth, lle gallai'r darparwr agosaf fod gryn bellter i ffwrdd o'u cartref. Mae ychydig o golegau hefyd yn ystyried gosod neu gynyddu costau ar gyfer cludiant wedi'i drefnu i'r coleg o ganlyniad i amgylchedd ariannol sy'n gynyddol heriol. Yn ychwanegol, mae ein hymgysylltiad â cholegau addysg bellach arbenigol wedi canfod nad yw rhai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau wedi gallu manteisio ar leoliadau yn y colegau hyn oherwydd diffyg cludiant.

Mae'r Cod ADY yn disgwyl bod anghenion addysg a hyfforddiant y rhan fwyaf o ddysgwyr ag ADY, yn cynnwys y rhai sy'n gadael ysgolion arbennig, wedi cael eu diwallu gan eu coleg addysg bellach lleol. Dyma a ganfu ein hadroddiad mewnwelediadau, 'Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn Colegau Addysg Bellach' (Hydref 2024):

*Crybwyllodd tua hanner y colegau fod recriwtio staff â'r medrau priodol i gefnogi dysgwyr ag ADY yn her. Mewn rhai achosion, roedd yn anodd dod o hyd i staff a oedd yn siarad Cymraeg. Mewn achosion eraill, roedd recriwtio'n anodd gan fod rolau'n cael eu hariannu gan grant ac felly nid oeddent yn barhaol. Nododd colegau llai ei bod yn arbennig o heriol sicrhau bod ganddynt yr ystod gywir o staff arbenigol, yn enwedig lle mae ansicrwydd ynghylch p'un a fydd dysgwr yn ymuno â'r coleg ac angen cymorth penodol arnynt ai peidio. Crybwyllodd colegau mwy fod staffio'n creu heriau o ran sicrhau arlwy teg i ddysgwyr ag ADY dros ardaloedd daearyddol mawr.*

Canfu ein hadroddiad ynghylch Tegwch profiadau'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) (Mehefin 2023) fod disgyblion mewn UCDau fel arfer yn cael eu cefnogi'n dda â'u cyfnod pontio yn y sector ôl-16:

*Mae disgyblion oedran uwchradd hŷn yn teimlo'u bod yn cael eu cynorthwyo'n dda i'w helpu i feddwl am eu camau nesaf wrth baratoi ar gyfer gadael UCDau. Mae ymweliadau mynych gyda staff UCDau â cholegau a chyflogwyr lleol yn eu helpu i feddwl ynghylch pa opsiynau sydd ar gael iddynt pan fyddant yn gadael. Mae bron pob un o'r disgyblion yn yr ystod oedran hon yn sôn am y cymorth cryf gan gynghorwyr Gyrfa Cymru, sy'n treulio amser gyda disgyblion mewn UCDau yn rheolaidd.*

**Data cyrchfannau ôl-16**

Mae amseroldeb, trylwyredd a defnyddioldeb data ar gyrchfannau ôl-16 a gesglir gan ddarparwyr ac y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd arnynt fel rhan o'r data mesur cyson ôl-16 yn peri pryder. Er enghraifft, mae'n debygol na adroddir yn ddigonol ar nifer y bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant oherwydd ffactorau fel y rhai a gofrestrodd yn gyntaf mewn ysgol neu goleg ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ond a roddodd y gorau i'w rhaglen yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf, ac nad yw eu cyrchfan ddiwygiedig wedi'i chofnodi na'i hadrodd mewn data swyddogol.

Argymhellodd ein Hadolygiad o Weithwyr Arweiniol Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid (Gorffennaf 2024) y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i *'ddatblygu ffyrdd o fesur llwyddiant gwaith i atal pobl ifanc rhag bod yn bobl NACH sydd wedi'u seilio ar werthusiadau tymor hirach, a pheidio â gor-bwysleisio gwerth data arolwg cyrchfannau cychwynnol.'*

Nododd yr adolygiad fod *'arweinwyr … yn tueddu i or-flaenoriaethu pobl ifanc yr oedd yn hysbys eu bod yn bobl NACH yn arolwg cyrchfannau Gyrfa Cymru, gan roi pwyslais annigonol ar unigolion yn haen 1, anhysbys. Wrth gyfeirio at y data a amlinellir yn adran gefndir yr adroddiad hwn, cyfanswm y ffigurau NACH ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed yn 2022, yn unol â data SFR, oedd 14,400; adroddodd data APS ffigur o 9,300, tra roedd arolwg cyrchfannau pobl ifanc sydd wedi gadael yr ysgol gan Gyrfa Cymru yn dangos bod 1,066 o bobl ifanc NACH. Gall data cyrchfannau Gyrfa Cymru roi golwg rhy gadarnhaol am lwyddiant gan nad yw myfyrwyr sy'n rhoi'r gorau i'w darpariaeth ôl-16 yn cael eu cofnodi'n gyson. Er y bu symud tuag at ddull mwy cyfannol, mae risg bosibl o hyd yn hyn o beth gan fod awdurdodau lleol yn defnyddio data cyrchfannau Gyrfa Cymru yn fwy na ffynonellau eraill, gan mai hon yw'r unig ffynhonnell ddata sy'n caniatáu ar gyfer gwneud cymariaethau ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill.'*

Mae'r data cyrchfannau sy'n cael ei gasglu a'i gyflwyno gan Gyrfa Cymru ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn ymwneud yn unig â dysgwyr sydd mewn chweched dosbarth ysgol. Mae hyn yn arwain at ddata sydd o ddefnydd cyfyngedig iawn, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol, gan fod cyfran yr ysgolion sydd â chweched dosbarth ym mhob awdurdod lleol yn amrywio o 0%-100%.

Mae data cyrchfannau ôl-16 ar gyfer dysgwyr ag ADY sydd wedi mynychu darpariaeth medrau byw yn annibynnol mewn colegau addysg bellach yn anghyson ac nid yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i golegau werthuso ansawdd eu darpariaeth yn erbyn deilliannau dysgwyr.

***Rôl Llywodraeth Cymru a Medr***

Mae arweinwyr mewn darparwyr ôl-16 yn cydnabod a gwerthfawrogi cymorth Llywodraeth Cymru hyd yma ar gyfer cyfranogiad mewn opsiynau addysg a hyfforddiant ôl-16 sy'n ategu trefniadau cymorth ariannol, fel y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Fodd bynnag, gwelir bod natur tymor byr y cyllid ychwanegol ar gyfer trefniadau cymorth ariannol a lles yn cyfyngu ar y gallu i gynllunio'n

effeithiol y tu hwnt i'r tymor byr agos o ran penderfyniadau ynglŷn â materion fel cymorth cyllid ychwanegol a threfniadau cludiant am ddim neu â chymhorthdal ar gyfer dysgwyr.